Merched y Wawr Cangen
Bethel
mywbethel.org

# Adroddiad Mis Mehefin

Daeth gweithgareddau'r flwyddyn eleni  i ben gyda Dathlu'r Aur ein cangen.

Cafwyd trip i ben yr Wyddfa ar Fehefin 17eg gyda 35 ohonom yn cychwyn ar y trên 2 o'r gloch. Clywyd seiniau o 'awn ar y trên bach' yn atsain o'r trên wrth iddi wneud ei ffordd draw at y Ceunant Mawr a'r teithwyr eraill ddim yn siwr iawn beth oedd yn mynd ymlaen! Hwyl a sbri go iawn a phawb yn brysur hefo'i camerau yn gwneud yn fawr o'r goygfeydd godidog. Ni faswn wedi cael gwell diwrnod i fynd os byddai wedi bod yn bosib ei ordro.

Cyrraedd y copa a gweld Cecille, oedd wedi cerdded i fyny yn ein disgwyl gyda gwen fawr ar ôl ei hantur yn cerdded i fyny am y tro cyntaf, da iawn hi.

Saib wedyn o hanner awr a phawb yn brysur yn tynnu lluniau, dringo i'r copa, cael ambell anrheg  ac wrth gwrs sgwrsio hefo hwn a llall.

Yna i lawr a ni i bentre bach Llanber a draw i'r  Fictoria lle cawsom 'de bach' bendigedig.

Ew roedd y baned yn dda, a'r brechdanau a'r cacennau yn flasus dros ben, gyda phopeth yn cael ei weini'n hyfryd iawn, diolch yn fawr iawn i  staff y Fictoria.

Lluniau o'r diwrnod ar y wefan, mywbethel.org

Wedi'r gwledda cawsom anerchiad olaf ein llywydd Gwyneth.

Diolchodd i bawb am yr holl waith gafodd ei wneud drwy gydol y flwyddyn, a'r holl wirfoddolwyr parod eu cymwynas.

Cydymdeimlwyd â Jen a'r teulu ar golli Meic mor sydyn, cofion annwyl iawn atoch.

Hefyd cofio am ein haelod Sheila, hithau wedi ei chymeryd yn sydyn iawn, cofion at Lynn, David a'r teulu yn eu colled o fam a nain annwyl.

Llongyfarchiadau i Liz Pen Parc  a Bet y ddwy yn dathlu penblwydd arbennig iawn (tydy nhw'n edrych yn dda am 80!) ac i Glenys, ond doedd dim un arbennig iddi hi.

Mabel a Tomos Alun yn dathlu priodas aur ac yn dod yn Daid a Nain i Efa Mai.

Sion Garth mab Anita wedi dyweddio hefo Rachel, dymuniadau gorau i chi.

Bydd Gwyneth Jones, (Pentir) yn cael llawdriniaeth dechrau Gorffennaf, dymuniadau gorau iddi hi hefyd.

Llongyfarchiadau i'r tim Bowlio Deg ddaeth yn fuddugol yn nhwrnament Gogledd Cymru, tipin o gamp, a da iawn chi ferched.

Cyflwynwyd rhodd i Jen fel arwydd o ddiolch am ei gwaith yn diweddaru'r wefan, sydd werth ei gweld, diolch yn fawr iawn I ti Jen.

Mair Read a Gwyneth Williams oedd enillwyr y raffl y tro hwn.

Atgoffwyd yr aelodau am yr apel am deis, bagiau, ategolion a gemwaith at Achub y Plant, fydd yn cael eu gwerthu yn yr Eisteddfod ym Môn eleni.

Bydd Penwythnos Preswyl MYW yn cael ei gynnal yn Aberystwyth eleni

8-10fed o Fedi a'r gost yw £240. Os am fwy o wybodaeth cysylltwch âg Eirlys.

Bydd Cinio Dathlu'r Aur y Rhanbarth yn y Celt ar yr 8fed o Orffennaf.

Aeth Anne Gwyneth a Mary draw i'r Parc i Arddangosfa'r Aur ar Fehefin 21ain ac roedd yn werth mynd i weld y Paneli a'r atgofion dros y 50 mlynedd a aeth heibio. Bydd yn bosib eu gweld yn yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Sioe Frenhinol.

Gobeithio i bawb fwynhau'r flwyddyn a aeth heibio, ac edrychwn ymlaen at flwydyn lewyrchus arall i'r gangen.